
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@walescoastpath
walescoastpath.gov.uk




# Cwmtydu a Chwm Soden, Ceredigion

## Cerddwch ar hyd clogwyni trawiadol a thrwy ddyffryn coediog tawel i archwilio olion caer o'r Oes Haearn.

*"Mwyhewch droedio cylchdaith o'r cildraeth bendigedig hwn, gan ddianc rhag miri a mwstwr eich bywyd beunyddiol. Cadwch lygad am forloi, brain coesgoch a brithegion prin."*

**NIGEL NICHOLAS, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a Diwedd:

Cwmtydu (cylchdaith).

### Pellter:

2 milltir/3km.

### Ar hyd y ffordd...

Bydd y gylchdaith hon yn eich tywys o gildraeth cysgodol Cwmtydu a thros fryniau sy'n ferw o adar a glöynnod byw.

Ar ôl i chi archwilio ogofâu a thraeth cerrig Cwmtydu, dilynwch Lwybr Arfordir Cymru gyda'r môr ar eich chwith, gan ddringo i fyny'r clogwyni. Byddwch yn mynd heibio i olion caer Castell Bach sy'n dyddio o'r Oes Haearn, cyn mynd i lawr i Gwm Silio wrth aber Afon Soden.

Cadwch olwg am forloi sy'n gorwedd o dro i dro ar y stormdraeth caregog hwn, ac yna cerddwch dros y glaswelltir arforol ar ben y clogwyni cyn dilyn y llwybr tua'r tir ar hyd ochr Cwm Soden.

Wrth i chi fynd yn eich blaen byddwch yn gweld brain coesgoch, huganod, gwylogod, a hyd yn oed hebogiaid tramor fry uwchben, ynghyd â myrdd o frithegion lliwgar yn ystod misoedd yr haf. Cerddwch ar hyd y llwybr trwy'r caeau, gan groesi dwy bont, cyn dilyn arwydd Cwmtydu i lawr lôn goediog nes cyrraedd dôl odidog yn llawn blodau gwyllt, a gaiff ei phori gan wartheg.

Byddwch yn mynd heibio i Dŷ Pen-y-Graig cyn cyrraedd y clogwyni uwchlaw Cwm Silio. O'r fan hon, dilynwch y llethr i lawr i gyfeiriad Castell Bach, cyn anelu'n ôl at Gwmtydu.

### Angen gwybod:

Ceir maes parcio, caffi a thoiledau tymhorol yng Nghwmtydu.